

# Datganiad o Adnoddau

Beth yw datganiad o adnoddau (SoR) ar gyfer safleoedd cig a'r canllawiau i ddatblygu SoR ar gyfer eich sefydliad.

## Cymru a Lloegr

Mae'r datganiad o adnoddau yn ddogfen sy'n cofnodi'r gofynion prosesu a'r adnoddau sydd eu hangen mewn safle unigol.

Mae hyn yn cynnwys manylion oriau gweithredu'r safle at ddibenion rheolaethau swyddogol. Mae angen y gofynion adnoddau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau codi tâl.

Dylai'r SoR gael ei ddrafftio mewn cydweithrediad rhwng gweithredwr y busnes bwyd a'n staff.

Mae canllawiau ar gael i'ch cefnogi chi yn y broses o weithio gyda'n staff i ddatblygu SoR sy'n benodol i'ch sefydliad.

## Cymru a Lloegr

[View Statement of resources guidance for England and Wales as PDF](#) (397.61 KB)

## Gogledd Iwerddon

Mae'r datganiad o adnoddau yng Ngogledd Iwerddon yn ddogfen ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd cymeradwy a milfeddygon swyddogol. Mae'n eich helpu i ddeall pa adnoddau sydd eu hangen am gyfnod penodol o amser.

Mae'r SoR yn darparu'r wybodaeth hanfodol i alluogi gweithredwyr busnesau bwyd a milfeddygon swyddogol i gytuno ar faint o adnoddau sydd eu hangen mewn safle penodol. Mae gweithredwyr busnesau bwyd a'r Milfeddyg Swyddogol preswyl yn cytuno ar y ddogfen yn fisol.

Mae canllawiau ar gael ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd a milfeddygon swyddogol yng Ngogledd Iwerddon sy'n esbonio sut i ddatblygu ac adolygu'r SoR.

## Gogledd Iwerddon

[View Statement of resources guidance for Northern Ireland as PDF](#) (208.41 KB)

## Gogledd Iwerddon

[View Charges guide for Northern Ireland as PDF](#) (396.65 KB)

## Cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn nogfennau canllaw'r Asiantaeth

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wrthi'n diweddarau'r holl gyfeiriadau at yr UE, er mwyn adlewyrchu'r gyfraith sydd bellach mewn grym yn gywir, ym mhob dogfen ganllaw newydd neu ddiwygiedig a gyhoeddir ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ddiwedd 2020. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd bob amser yn ymarferol i ni ddiweddarau'r holl gyfeiriadau at yr UE ar yr adeg yr ydym ni'n cyhoeddi canllawiau newydd neu ddiwygiedig.

Ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn y canllawiau hyn i olygu cyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*). Gallwch weld cyfraith yr UE a ddargedwir trwy [Archif Ymadael â'r UE](#) Llywodraeth EM. Dylid darllen y gyfraith hon ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig (DU). Mae deddfwriaeth Ymadael â'r UE i'w gweld ar [legislation.gov.uk](https://legislation.gov.uk). Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel a restrir ym [Mhrotocol Gogledd Iwerddon](#), ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hyn.